# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 10 Ionawr 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(36)

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Gofynnwyd y 15 cwestiwn. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2. Tynnwyd cwestiwn 5 yn ôl.

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.31

### 3. Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Comisiynydd Pobl Hyn Cymru: Gofal gydag Urddas? – Cynnydd

Dechreuodd yr eitem am 14.45

### 4. Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain (Hysbysebu a Masnachu) (Cymru) 2012

Dechreuodd yr eitem am 15.31

**NDM4880 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain (Hysbysebu a Masnachu) (Cymru) 2012 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Tachwedd 2011.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**Canlyniad y bleidlais:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 5 | 11 | 56 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 5. Dadl ar y Setliad Llywodraeth Leol

Dechreuodd yr eitem am 15.29

**NDM4881 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) 2012-2013 (Setliad Terfynol - Cynghorau), a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Rhagfyr 2011.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**Canlyniad y bleidlais:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 34 | 10 | 12 | 56 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 6. Dadl ar Raglenni Ewropeaidd

Dechreuodd yr eitem am 16.00

**NDM4882 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r cyfraniad cadarnhaol y mae Rhaglenni Ewropeaidd cyfredol a blaenorol yn ei wneud ac wedi'i wneud;

2. Yn croesawu'r rôl hanfodol y mae arian Ewropeaidd, gan gynnwys y Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r Cronfeydd Strwythurol, yn ei chwarae o ran cefnogi economi Cymru;

3. Yn cydnabod bod chwarae rhan lawn a rhagweithiol o fewn yr UE yn dod â manteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ar wahân i'r rheini sy'n deillio o'r Rhaglenni Ewropeaidd;

4. Yn nodi â phryder benderfyniad Llywodraeth y DU i arfer ei feto yn ystod trafodaethau'r UE ym Mrwsel ar 9 Rhagfyr 2011ac yn annog Llywodraeth y DU i weithio mewn ffordd adeiladol gydag Aelod-wladwriaethau eraill i sicrhau bod y DU yn mynd ati unwaith eto i chwarae rôl ganolog yn yr UE er mwyn hybu buddiannau ehangach Cymru a rhannau eraill y DU wrth lunio polisi a gweinyddu Rhaglenni Ewropeaidd, yn ogystal ag wrth ddatblygu ymhellach bolisïau economaidd, diwylliannol a chymdeithasol Ewropeaidd.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliant o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn gresynu bod un Llywodraeth Cymru ar ôl y llall wedi methu â manteisio i'r eithaf ar botensial rhaglenni'r UE a bod rhannau o Gymru'n dal i fod ymysg y tlotaf yn yr Undeb Ewropeaidd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 40 | 56 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn nodi'r cyfraniad pwysig a wnaethpwyd gan Raglenni Ewropeaidd ac yn cydnabod ymhellach bwysigrwydd y farchnad Ewropeaidd i'n heconomi, gyda 39.9 y cant o allforion Cymru yn mynd i wledydd yr UE.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 56 | 0 | 0 | 56 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ym mhwynt 1 ar ôl 'wedi'i wneud' rhoi 'ond hefyd yn nodi methiant Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r rhaglenni hynny'n effeithiol i wella ffyniant economaidd cymharol Cymru'.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 30 | 56 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys pwynt newydd ar ôl pwynt 2 ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu buddiannau cenedlaethol Cymru mewn cysylltiad â'r trafodaethau ar raglenni Ewropeaidd a pholisi Ewropeaidd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 56 | 0 | 0 | 56 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

4. Yn croesawu penderfyniad Llywodraeth y DU i arfer ei feto yn ystod y trafodaethau ym Mrwsel ar 9 Rhagfyr 2011 ac yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth y DU i weithredu er budd gorau pobl Cymru a Phrydain yn nhrafodaethau cyllido'r UE.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 11 | 0 | 45 | 56 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ym mhwynt 4 dileu 'yn mynd ati unwaith eto i chwarae' a rhoi 'yn chwarae'.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 29 | 57 |

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Llywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.

**Gwrthodwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â Llywodraeth y DU mewn ffordd adeiladol er mwyn gweithio er budd cenedlaethol Cymru ac i fanteisio i'r eithaf ar fuddiannau rhaglenni'r UE i Gymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 56 | 0 | 0 | 56 |

**Derbyniwyd gwelliant 7.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NDM4882 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r cyfraniad pwysig a wnaethpwyd gan Raglenni Ewropeaidd ac yn cydnabod ymhellach bwysigrwydd y farchnad Ewropeaidd i'n heconomi, gyda 39.9 y cant o allforion Cymru yn mynd i wledydd yr UE;

2. Yn croesawu'r rôl hanfodol y mae arian Ewropeaidd, gan gynnwys y Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r Cronfeydd Strwythurol, yn ei chwarae o ran cefnogi economi Cymru;

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu buddiannau cenedlaethol Cymru mewn cysylltiad â'r trafodaethau ar raglenni Ewropeaidd a pholisi Ewropeaidd;

4. Yn cydnabod bod chwarae rhan lawn a rhagweithiol o fewn yr UE yn dod â manteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ar wahân i'r rheini sy'n deillio o'r Rhaglenni Ewropeaidd;

5. Yn nodi â phryder benderfyniad Llywodraeth y DU i arfer ei feto yn ystod trafodaethau'r UE ym Mrwsel ar 9 Rhagfyr 2011ac yn annog Llywodraeth y DU i weithio mewn ffordd adeiladol gydag Aelod-wladwriaethau eraill i sicrhau bod y DU yn mynd ati unwaith eto i chwarae rôl ganolog yn yr UE er mwyn hybu buddiannau ehangach Cymru a rhannau eraill y DU wrth lunio polisi a gweinyddu Rhaglenni Ewropeaidd, yn ogystal ag wrth ddatblygu ymhellach bolisïau economaidd, diwylliannol a chymdeithasol Ewropeaidd.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â Llywodraeth y DU mewn ffordd adeiladol er mwyn gweithio er budd cenedlaethol Cymru ac i fanteisio i'r eithaf ar fuddiannau rhaglenni'r UE i Gymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 45 | 0 | 11 | 56 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd y Cyfnod Pleidleisio am 17.02

**7. Dadl Fer**

Dechreuodd yr eitem am 17.07

**NDM4883 Llyr Huws Gruffydd (Gogledd Cymru):** Gwneud trafnidiaeth gynaliadwy'n haws ar gyfer cymunedau gwledig

Daeth y cyfarfod i ben am 17.35

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30 Dydd Mercher, 11 Ionawr 2012**